**Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad**
**Minister for Environment, Planning and Countryside**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Ein cyf: CL-01-06
A-PAA 56-03-37

At: Aelodau Cabinet yr Awdurdodau Lleol sy'n gyfrifol am Gynllunio
Cadeiryddion y Pwyllgorau Cynllunio
Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol a Pharciau Cenedlaethol
Prif Swyddogion Cynllunio

12 Ionawr 2006

Annwyl gydweithwyr

**GWNEUD PENDERFYNIADAU A BRIFFIO AELODAU**

Pan gwrddais ag Aelodau Arweiniol Cynllunio a Phrif Swyddogion Cynllunio y llynedd, pwyswyd arnaf i ysgrifennu at awdurdodau cynllunio lleol i bwysleisio pa mor bwysig ydoedd bod aelodau yn cael hyfforddiant cyn gwneud penderfyniadau cynllunio.

Ym 1997, argymhellodd y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus, y Pwyllgor Nolan, y dylai "pob aelod o bwyllgor cynllunio awdurdod lleol (neu ei gyfatebol) gael eu hyfforddi yn y system gynllunio, un ai cyn gwasanaethu ar y pwyllgor, neu cyn gynted â phosibl wedi iddynt gael eu penodi ar y pwyllgor".

Rwy'n cymeradwyo'r argymhelliad hwnnw, yn wir mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymgorffori'r gofyn hwn yng nghôd ei Haelodau ynglyn â gwneud penderfyniadau cynllunio ac mae rhaglen *Cynllunio: Cyflawni dros Gymru* yn dweud y dylai aelodau etholedig awdurdodau cynllunio lleol gael eu hyfforddi cyn eistedd ar Bwyllgorau Cynllunio.

Mae Cytundeb Cynllunio Llywodraeth y Cynulliad gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) hefyd yn ymrwymo'r partneriaid i sicrhau bod aelodau etholedig yn cael y cyfle i gael hyfforddiant cymwys cyn iddynt wasanaethu ar bwyllgor cynllunio.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi parhau i weithio gyda CLILC, Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru, a phartneriaid eraill i fynd â'r gwelliannau a amlinellir yn rhaglen *Cynllunio: Cyflawni dros Gymru* yn eu blaen. Ers 2004, rydym wedi ariannu rhaglen friffio gynhwysfawr ar gyfer pob aelod, sydd wedi ei ddylunio i'w galluogi i ddelio yn well â materion cynllunio a'r system gynllunio newidiol. Mae'r rhaglen yn anelu at ategu'r wybodaeth sy'n cael ei darparu i'r aelodau gan awdurdodau unigol.

Rwy’n annog yn gryf bod pob awdurdod yn parhau i friffio’u haelodau ar gynllunio.  Ble bynnag y bo modd, dylai pob awdurdod sicrhau bod briffio o’r fath yn cael ei ddarparu cyn gwneud penderfyniadau.  Mae’n hanfodol bod y wybodaeth a’r sgiliau y mae’r aelodau yn eu dysgu yn cael eu defnyddio i wneud penderfyniadau cynllunio cyson y mae gan y gymuned hawl i’w disgwyl a phenderfyniadau y bydd ffydd pawb yn y system yn dibynnu arnynt.

